

EVANS, JOHN (1796 - 1861), ysgolfeistr

Enw: John Evans
Dyddiad geni: 1796
Dyddiad marw: 1861
Priod: Gwen Evans (née Mason)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr
Maes gweithgaredd: Addysg
Awduoron: Bertie George Charles, Llewelyn Gwyn Chambers

Ganwyd 7 Chwefror 1796, ym Mlaen Plwyf, plwyf Llanychaiarn, Sir Aberteifi. Gwehydd oedd ei dad a dilynodd yntau yr un alwedigaeth nes blino ohono ar y gwaith a cherdded i Lundain pan oedd yn 17 oed i chwilio am waith mwy wrth ei fod. Yno cynhaliodd ei hun drwy werthu llyfrau o ddrws i ddrws. Daeth o dan adain David David, cydwladrwr a thiwniwr offer cerdd, a thrwy ei gymorth ef osodwyd Evans mewn ysgol a gedwid gan Griffith Davies, y cyfrifydd enwog. Gwnaeth gynnydd mawr yno mewn mathemateg.

Ar ôl bod yn cadw ysgolion yn Llanfair Caereinion a Llanidloes, dychwelodd i Aberystwyth oddeutu 1821 (neu'n gynharach, gan y dywed ei garreg fedd iddo fod yn ysgolfeistr am 44 mlynedd) i agror ei ysgol enwog, 'The Mathematical and Commercial School,' yn Chalybeate Street, lle y cai ieuencyd y cylch addysg ymarferol ganddo am dros 40 mlynedd. Ymhilh ei ddisgyblion yr oedd Lewis Edwards, Henry Richard, David Charles Davies a 'Ieuan Gwyllt' (John Roberts). Pan fu Lewis Edwards yn cadw ysgol yn Aberystwyth nid ystyriai hi'n 'gyd-ymgeisydd' ond yn 'ymbaratoad' i ysgol Evans. Ystyrid hi yn ysgol enwog am ddysgu morwriaeth. Yr oedd Evans yn dra hydysg hefyd mewn seryddiaeth, a meddai ddawn arbennig i ddyfeisio deialau haul ac offerynnau peiriannol.

Priododd 14 Mai 1821, yn eglwys S. Miangel, Gwen Mason (1796 - 1834), o blwyf Llanbadarn Fawr. Yn 1858 anrhegwyd ef gan drigolion Aberystwyth a thysteb am gadw cloc ar gyfer y dref. Bu'n flaenor yn Tabernacle, capel y Methodistiaid Calfinaidd, Aberystwyth, am 14 mlynedd. Bu farw 2 Ebrill 1861.

Awduron

[Dr Bertie George Charles](#), (1908 - 2000)

[Dr Llewelyn Gwyn Chambers](#)

Ffynonellau

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870), 339

Cymru (O.M.E.), Ionawr 1892

J. H. Davies, Cymru (O.M.E.), 44 (1913), 45

David Samuel, Cymru (O.M.E.), 21 (1901), 91

Daniel Williams, *Memoirs and sketches of one hundred-and-eleven eminent men, natives of the county of Cardigan, chiefly authors, several of whom have not before been noticed in a similar publication, with an account of their publications, including a list of living authors & of their publications* (1874)

Aberystwyth Observer, 22 Rhagfyr 1858, 6 Ebrill 1861

Y Goleuad, 11 Tachwedd 1875

Reports of the commissioners of inquiry into the state of education in Wales, appointed by the Committee of council on education, in pursuance of proceedings in the House of commons, on the motion of Mr. Wiliams, of March 10, 1846, for an address to the Queen, praying Her Majesty to direct an inquiry to be made into the state of education in the principality of Wales, and especially into the means afforded to the labouring classes of acquiring a knowledge of the English language (Llundain 1847), ii, 157

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733417](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Charles, B. G., & Chambers, Ll. G., (1953). EVANS, JOHN (1796 - 1861), ysgolfeistr. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-JOH-1796>

Copirioedd

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodweddu
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government